

# RYDYM YN RECRIWTIO

Ymunwch a'r tim yn Hamdden Sir Ddinbych





**Teitl y Swydd: Rheolwr  
Cymorth Busnes – Ein Pobl**

**Cyfeirnod y swydd:**

**Lleoliad: Dinbych**

**Cyflog: £32,234 - £35,745**

**Oriau: 37 awr**

**Contract : Parhaol**

**Dyddiad Cau: 15/7/2021**

**Sut i wneud cais:**

Os oes gennych ddiddordeb yn y swydd hon, gwnewch gais ar-lein drwy'r wefan [www.hamddensirddinbych.co.uk](http://www.hamddensirddinbych.co.uk).

Gweinyddir pob cais ar ein rhan gan Gyngor Sir Dinbych, ein comisiynwyd darparwr AD. Mae'n rhaid i ymgeiswyr lenwi ein ffurflen gais trwy'r wefan er mwyn cael eu hystyried. Mae'n ddrwg gennym na allwn ateb pob cais. Os nad ydych wedi derbyn ateb o fewn tair wythnos i'r dyddiad cau, fe ddylech chi gymryd yn ganiataol nad ydych wedi cyrraedd y rhestr fer am gyfweiliad.

## Llythyr gan y Rheolwr Gyfarwyddwr

Helo, fy enw i yw Jamie Groves, a fi yw Rheolwr Gyfarwyddwr Hamdden Sir Ddinbych Cyf. Am fod gennych ddi-ddordeb mewn ymuno â'n Cwmni, roeddem yn credu yr hoffech gael ychydig o wybodaeth amdanom ni.

Mae hwn yn gyfle cyffrous i ymuno â Hamdden Sir Ddinbych Cyf, gan ein bod yn Gwmni newydd gyda thîm sefydledig, brwdfrydig ac ysgogol, sydd â diwylliant o berfformiad uchel a gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid. Mae ein llwyddiannau yn y gorffennol wedi ein harwain at ein sefyllfa bresennol, sef enw da o brofiadau gwych yn ein cyfleusterau i gyd a thîm o weithwyr caled sy'n ffynnu o ddarparu'r profiadau gorau posibl i gwsmeriaid.

Mae ein hymrwymiad i ddarparu cyfleusterau o'r safon orau i gwsmeriaid yn parhau o un flwyddyn i'r llall, ac mae'r rhaglen dreigl hon o fuddsoddiad yn ein cyfleusterau wedi arwain at enw da am ddarparu cyfleusterau chwaraeon, ffitrwydd a hamdden i'n preswylwyr ac ymwelwyr, sydd yn cael eu cymharu â'r rhai gorau yn y sector breifat. Mae ein saith Canolfan Hamdden yn cynnig cyfarpar campfa o'r radd flaenaf ac ystod eang o ddsbarthiadau ffitrwydd. Ar draws y sir, mae gennym chwe pwll nofio, yn ogystal â neuaddau chwaraeon a chaeau aml dywydd.

I'r rheiny sydd yn chwilio am ddiwrnod llawn hwyl, mae gennym barc dŵr SC2 gyda Tag Ninja yn y Rhyl, y Nova – ein lleoliad orau i ymwelwyr ym Mhrestatyn, a Chanolfan Bowls Gogledd Cymru. Rydym yn cynnig bwyd arbennig a choctêls ym Mwyty a Bar 1891 yn y Rhyl, neu bitsa a gwydraid oer o win gwyn yn yr haul yn y Cwt y Traeth ym Mhrestatyn. I'r rhai hynny sydd â diddordeb yn y celfyddydau, efallai hoffech ymweld â Chanolfan Grefft Rhuthun, Canolfan ar gyfer y Celf Cymhwysol gyda tair oriel yn dangos celf gymhwysol cenedlaethol a rhyngwladol orau. Mae gan ein tîm Cymunedau Actif prysur gyfoeth o brofiadau yn eu sectorau eu hunain, a gyda'i gilydd maent yn cyfuno eu sgiliau i gynnig rhaglen amrywiol o ansawdd uchel, a chyfleodd hamdden cynhwysol. Mae pawb wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth rhagorol i'n holl gwsmeriaid, felly os mai cynnal parti pen-blwydd neu helpu rhywun wella eu hiechyd a ffitrwydd ydyw, rydym bob amser yn barod i helpu.

Ein staff sy'n sail i'n llwyddiant, ac mae gennym dîm ac ethig gwych yn Hamdden Sir Ddinbych Cyf. Rydym yn cynnig cyfleoedd eang i hyfforddi a datblygu gyrfa, ac yn gweithio'n galed i sicrhau bod ein staff yn hapus yn eu rôl. Os ydych yn angerddol dros ddarparu gwasanaeth rhagorol, yn gyfeillgar ac yn hawdd mynd atoch, gyda'r awydd i helpu cydweithwyr a chwsmeriaid, yna byddwch yn gartrefol iawn gyda ni.

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.



*'Darparu cyfleoedd hamdden hygyrch o safon uchel sy'n denu lefelau cyfranogi uchel, a gwella lles ein trigolion ac ymwelwyr'*



## Hamdden Sir Ddinbych Cyf

Mae Hamdden Sir Ddinbych Cyf yn ymroddedig i Gyfle Cyfartal a Safonau Iaith Gymraeg. Rydym yn croesawu ceisiadau Cymraeg; sylwch na fydd unrhyw ffurflenni cais a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na ffurflenni cais a gyflwynir yn Saesneg.

Mae tîm Hamdden Sir Ddinbych yn dîm sefydledig, angerddol a llawn cymhelliant sydd â diwylliant o ddarparu gwasanaeth perfformiad uchel a rhagorol i gwsmeriaid. Mae ein llwyddiannau yn y gorffennol wedi ein harwain at ein sefyllfa bresennol, sef cyfleusterau uchel iawn eu parch a thîm o weithwyr caled sy'n ffynnu o ddarparu'r profiadau gorau posibl i gwsmeriaid.

Rydym yn disgwyl i'n staff ymrwymo i;

- Ddarparu gwasanaeth o safon ragorol bob amser
- Sicrhau eu datblygiad eu hunain a datblygiad ein busnes
- Gweithio'n hyblyg ar draws safleoedd lle bo angen
- Cefnogi gwaith tîm, cefnogi eu cydweithwyr a'n cwsmeriaid

Mae ein gweithlu yn hynod o bwysig i ni ac rydym yn ymrwymedig i gefnogi staff i sicrhau cydbwysedd cadarnhaol rhwng gwaith a bywyd. Mae gan bawb sy'n gweithio i Hamdden Sir Ddinbych Cyf hawl i amrywiaeth o fuddion, gan gynnwys aelodaeth campfa am bris gostyngol, cyfleoedd dysgu a datblygu personol a phroffesiynol, hawl i wyliau blynyddol hael (gyda chyfle i brynu mwy) a chefnogaeth ar gyfer ceisiadau am seibiant gyrfa a secondiadau.

**Ein Pobl | Ein Busnes | Ein Cymuned**





## Swydd-ddisgrifiad

Teitl y Swydd: Rheolwr Cymorth Busnes – Ein Pobl

Cyflog: £32,234 - £35,745

Cwmni: Hamdden Sir Ddinbych Cyf

Maes Gwasanaeth: Busnes a Llywodraethu

Yn atebol i'r: Pennaeth Busnes a Llywodraethu

Cyfeirnod y Swydd / Dyddiad Cyhoeddi: I'w gadarnhau

### Pwrpas y Swydd:

Bod yn gyfrifol am reoli ac arwain rhaglen 'Ein Pobl' Hamdden Sir Ddinbych Cyf a'r swyddogaethau cysylltiedig. Bydd deiliad y swydd yn darparu arweinyddiaeth a chyfarwyddiaeth gyffredinol ar gyfer holl swyddogaethau strategol a gweithredol gweithwyr y Cwmni.

Darparu cyngor doeth a chyfarwyddyd yn gyson i reolwyr a staff ynglŷn â phob elfen o'r cylch cyflogi, gan gynnwys recriwtio, lles y staff a rheoli perfformiad. Datblygu a chyflawni amcanion busnes sydd a wnelont ag Ein Pobl a'r gweithlu.

Mae Hamdden Sir Ddinbych wedi gwneud cynnydd sylweddol dros y ddegawd ddiwethaf yn mynd i'r afael â chyfleusterau gwael, caiff ei adnabod fel darparwr gwasanaeth pwysig gan Gyngor Sir Ddinbych a chyrrff cyhoeddus eraill; ac mae ganddo broffil uchel ar draws y sector Hamdden. Fel Rheolwr Cymorth Busnes â chyfrifoldeb am 'Ein Pobl' byddwch yn gweithio'n agos â Swyddogion Gweithredol y Cwmni wrth reoli a datblygu gweithlu a systemau'r Cwmni. Byddwch yn llunio strategaethau priodol, eu datblygu a'u harwain er mwyn datblygu 'Ein Pobl' yn unol ag amcanion y Cwmni.

Bydd gennych brofiad helaeth fel gweithiwr proffesiynol medrus ac yn medru profi eich bod wedi datblygu a llywio swyddogaethau a rhaglenni llwyddiannus sydd a wnelont â gweithwyr.

Ymysg eich sgiliau fydd y gallu i ystyried ffactorau a phwysau sefydliadol, gwleidyddol ac amgylcheddol a rhoi sylw iddynt wrth wneud penderfyniadau. Byddwch yn cyfrannu at ddatblygu a gweithredu trefniadau llywodraethu'r Cwmni'n gyffredinol. Bydd deiliad y swydd yn rhan o dîm Rheoli'r Cwmni sy'n darparu cyngor, cymorth ac arweiniad i Swyddogion Gweithredol ar faterion 'Ein Pobl' cysylltiedig; ac yn barod i herio a chymharu dulliau gwaith o fewn y maes gwasanaeth ac ar draws y meysydd eraill.



Sefydlwyd y swydd hon yn bennaf er mwyn rheoli rhaglen a swyddogaeth 'Ein Pobl' y cwmni a'r systemau ategol. Bydd deiliad y swydd yn rheoli a chefnogi'r llif gwaith sydd a wnelo â gweithgarwch Adnoddau Dynol gydol yr adran, ac yn darparu cefnogaeth uniongyrchol yn feunyddiol i'r Rheolwr Gyfarwyddwr a'r tîm Rheoli Gweithredol.

Bydd deiliad y swydd yn gyfrifol hefyd am ddatblygu arferion gwaith a chyflwyno dulliau gwaith newydd a gwell ymhob rhan o'r cwmni yn rhinwedd 'Ein Pobl'.

### **Bod yn rhan o dîm Rheoli Hamdden Sir Ddinbych Cyf**

Fel Cwmni disgwyliwn i Reolwyr gael y cyfle i gefnogi ei gilydd ar draws gwasanaethau, a gweithredu'n effeithiol fel tîm cyffredinol ag amrywiaeth o sgiliau, ac ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb am gyfeiriad y Cwmni a'i wasanaethau yn y dyfodol.

Dylai deiliad y swydd feddu ar y rhinweddau canlynol:

- Bod yn weithiwr busnes proffesiynol profiadol a medrus sy'n mwynhau her ac sydd â'r dyfalbarhad i lwyddo.
- Meddu ar y sgiliau a'r profiad i gyfrannu at arweinyddiaeth gorfforaethol, arwain y gwaith o ddatblygu strategaethau cadarn; a meithrin perthnasoedd gwaith cryf gyda staff, partneriaid ac uwch-swyddogion eraill y Cwmni.
- Profiad o reoli staff a chyllid yn effeithiol i gyflawni gwasanaethau ac amcanion, a phrawf o'r gallu i wneud hynny.
- Medru dadansoddi a gwerthuso materion a sefyllfaoedd cymhleth sy'n cynnwys amrywiaeth o faterion, yn ogystal â'r gallu i ddangos sgiliau ysgrifenedig a llafar rhagorol.
- Meddu ar y sgiliau a'r profiad i fedru deall mor bwysig yw technoleg newydd wrth gynnal a diogelu'r busnes.
- Meddu ar sgiliau rhagorol mewn arweinyddiaeth, cyfathrebu, rhyngpersonol a rheoli, yn gymesur â statws y swydd.
- Meddu ar sgiliau cyfathrebu datblygedig iawn, er mwyn cynnal perthnasoedd gwaith da wrth ymdrin â materion anodd a dadleuol neu'u datrys.



## Prif Gyfrifoldebau

- Rheoli rhaglen 'Ein Pobl' y Cwmni'n uniongyrchol, gan gynnwys recriwtio, cynllunio, datblygu, sicrhau ansawdd a darparu gwasanaeth effeithiol ac effeithlon.
- Darparu arweinyddiaeth, strwythur, rheolaeth a chyfeiriad i'r swyddogaeth 'Ein Pobl' ar ran Hamdden Sir Ddinbych Cyf.
- Darparu cyngor ac arweiniad i Reolwr Gyfarwyddwr a Bwrdd y Cwmni ac adrodd iddynt ar yr holl faterion sy'n gysylltiedig ag 'Ein Pobl'.
- Cyfrannu'n llawn at ddatblygu cyfeiriad strategol y Cwmni ar draws holl feysydd 'Ein Pobl', herio rhagdybiaethau a gwneud penderfyniadau fel bo'n briodol a darparu dadansoddiad ac arweiniad ar gyfer holl weithgareddau, cynlluniau, targedau ac ysgogwyr busnes.
- Darparu arweinyddiaeth weladwy a chlr i staff gan gynnwys canllawiau clir a herio trylwyr i sicrhau arferion o ansawdd uchel, yn arbennig mewn perthynas â'r maes gwasanaeth.
- Bod yn aelod gweithredol o dîm Rheoli'r Cwmni ac ynghyd â chydweithwyr yn ein tîm Gweithredol bod yn gyfrifol am gyfeiriad strategol ac arweinyddiaeth gyffredinol 'Ein Pobl' o fewn Hamdden Sir Ddinbych Cyf.
- Cyfrannu at weithredu trefniadau llywodraethu'r Cwmni'n gyffredinol. Sefydlu a chynnal lefel uchel o hygredded a rheoli perthnasoedd gwaith cryf gyda sefydliadau allanol, gan gynnwys cwsmeriaid a phartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus.
- Cynorthwyo'r tîm Gweithredol wrth feincnodi gweithgareddau allweddol y gwasanaeth 'Ein Pobl', gan sicrhau bod holl wasanaethau'r Cwmni yn effeithlon ac yn gwella.
- Adnabod cyfleoedd ar gyfer arloesi a gwella, gan ddatblygu a gweithredu cynlluniau ar gyfer hybu gwelliant.
- Rheoli a threfnu digwyddiadau swyddogol 'Ein Pobl' ledled y sir.



## Prif Gyfrifoldebau

- Bod yn gyfrifol am weithredu'r elfen 'Ein Pobl' o'r busnes, gan sicrhau fod yno strategaethau a systemau effeithiol ar waith i gefnogi'r holl staff yn llwyr tra byddant yn gweithio i'r Cwmni.
- Cyflawni gweithgareddau gwella busnes sy'n canolbwyntio ar bobl ac yn ategu gweledigaeth ac amcanion allweddol Hamdden Sir Ddinbych Cyf.
- Datblygu a gweithredu'r cylch recriwtio cyfan a chynghori yn ei gylch, gan gynnwys cynefino staff newydd a threfniadau ar gyfer ymadael, datblygu ymgyrchoedd recriwtio a rheoli perfformiad.
- Bod yn gyfrifol am ddatblygu a gweithredu system a phroses effeithiol ar gyfer sefydlu staff a rheoli perfformiad, gan gynnwys e-ddysgu, sesiynau sefydlu'r cwmni a datblygu'r gweithlu'n barhaus.
- Cefnogi rheolwyr gyda materion sydd a wnelont ag 'Ein Pobl' fel gweithdrefnau disgyblu, cwynion, rheoli absenoldebau ac yn y blaen, a mynd i gyfarfodydd yn ôl y gofyn i drafod materion staffio gweithredol.
- Hyrwyddo diwylliant o welliant parhaus drwy osod y cyfeiriad strategol a gweithredol a chefnogi datblygiad talent o fewn y Cwmni, gan gynnwys cynllunio hyfforddiant perthnasol, ei weithredu a'i ddarparu, yn unol ag anghenion y staff ac anghenion datblygu'r busnes.
- Bod yn gyfrifol am ddatblygu strategaethau sy'n canolbwyntio ar bobl a lles, gan gynnwys iechyd meddwl, lles staff, datblygiad staff a datblygu diwylliant. Arwain ar safonau Iechyd Corfforaethol y Cwmni.
- Cydweithio i gynnal trefn effeithiol o gyfathrebu â staff, gan gynnwys rheoli cynnwys yr ap 'Ein Pobl' a mewnrwyd newydd y Cwmni.
- Gweithio â'r darparwr wrth sicrhau bod materion staffio, polisiau a strategaethau'n ategu'r weledigaeth hirdymor ar gyfer 'Ein Pobl' a'r Cwmni yn gyffredinol.
- Gweithio â'r darparwr wrth ddatblygu polisiau a gweithdrefnau effeithiol sy'n ategu'r nodau busnes sy'n gysylltiedig â'r gweithlu, a hynny'n unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, cyfraith achosion ac arferion gorau.





## Prif Gyfrifoldebau

- Cydweithio â gwasanaethau cynnal er mwyn hwyluso prosesau effeithlon, gan gynnwys Cyllid, y Gyflogres, Adnoddau Dynol a TGCh.
- Cyfrannu at integreiddio systemau a phrosesau perthnasol yn effeithiol fel eu bod yn effeithlon ac yn ateb dibenion 'Ein Pobl'.
- Ymateb i anghenion newidiol y busnes a chynnal eich datblygiad proffesiynol parhaus eich hun.
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau rhesymol eraill sy'n gysylltiedig â'r swydd.

## Goruchwyllo/Rheoli Pobl

- Bydd deiliad y swydd â chyfrifoldeb uniongyrchol fel rheolwr atebol ar gyfer pob swydd sy'n berthnasol i'r amryw ffrydiau gwaith a rhaglenni sy'n gysylltiedig ag 'Ein Pobl', yn ogystal â goruchwyllo'r holl systemau, trefniadau llywodraethu a strategaethau hyn hynny o beth. Gall y niferoedd amrywio o un mis i'r llall gan ddibynnu ar y rhaglen.
- Bydd deiliad y swydd yn rheoli amrywiaeth helaeth o gontractau a pherthnasau sy'n hanfodol i gydymffurfiaeth gyfreithiol y cwmni, yn ogystal â'i enw da.

## Amodau Gwaith Arbennig

- Mae'n rhaid i ddeiliad y swydd fedru teithio ledled Sir Ddinbych a thelir lwfans am hyn, ond mae hyn yn cael ei adolygu.
- Er mai swydd 37 awr yr wythnos yw hon, mae angen agwedd hyblyg tuag at yr oriau gwaith craidd. Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd weithio'r oriau y mae'r swydd yn eu mynnu.
- Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd ymgymryd â swyddogaethau adrannol ehangach, yn ôl yr angen, fel aelod o strwythur Rheoli'r Cwmni.
- Bydd gofyn i ddeiliad y swydd weithio o fewn terfynau amser llym ac o fewn cyllidebau penodol.
- Bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am reoli cyllid ac adnoddau i gefnogi rhaglen 'Ein Pobl' y Cwmni.
- Bydd gofyn i ddeiliad y swydd gwblhau tasgau heb oruchwyliaeth, a rhaid iddynt brofi eu bod yn gallu gweithio ar eu liwt eu hunain.
- Mae'n hanfodol gallu blaenoriaethu gwaith, delio â blaenoriaethau sy'n gwrthdaro a bodloni terfynau amser.



## Gweledigaeth /Cyd-destun

Mae Hamdden Sir Ddinbych Cyf wedi trawsnewid dros y degawd diwethaf ac mae bellach yn adnabyddus am ddarpariaeth o safon uchel ledled Sir Ddinbych; gan gynnig arlwy Hamdden newydd, unigryw, fforddiadwy a masnachol gynaliadwy; a gwneud cyfraniad sylweddol at wella iechyd ein trigolion a darparu ffyniant economaidd. Mae hyn wedi bod yn bosibl o ganlyniad i'n gweithlu llawn cymhelliant sy'n gweithio o fewn diwylliant gwych a gwerthoedd cryf.

Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd arddangos a hyrwyddo gwerthoedd craidd ein cwmni:

- Byddwn yn glynu at ein egwyddorion uniondeb a gonestrwydd.
- Bydd ein staff yn ymddiried ynom fel eu cyflogwr i wneud yr hyn sy'n iawn bob amser, a byddwn yn eu gwneud yn falch.
- Ni fyddwn yn byth yn derbyn y status quo. Byddwn yn gweithio'n galetach, yn cryfhau ac yn parhau i ddarparu gwasanaeth o'r safon uchaf i'n cwsmeriaid.

Mae gan Hamdden Sir Ddinbych Cyf dri piler pwysig ac unigryw, sy'n sail ac yn ddylanwad ar y ffordd yr ydym yn gweithio a'r rheswm dros greu'r Cwmni. Caiff y Cwmni ei gydnabod am ei gyfraniad gwerthfawr i'n cymunedau, y ffordd mae'n cydweithio â'i bartneriaethau a busnesau eraill, ac yn bwysicach fyth, y ffordd y mae'r Cwmni yn gofalu ac yn datblygu ei weithlu- mae'r Cwmni yn credu'n gryf mewn athroniaeth 'un tîm – un cyfrif banc'.



## Tair piler o Hamdden Sir Ddinbych Cyf:

### Ein Cymuned

Yn ardal Sir Ddinbych yn ehangach mae ein timau yn gweithio gyda rhwydwaith o gymunedau llai sy'n cynnwys cwsmeriaid, clybiau chwaraeon, grwpiau lleol a phreswylwyr. Mae'r cymunedau hyn yn greiddiol i bopeth rydym yn ei wneud.

### Ein Pobl

Credwn fod ein staff yn elfen hanfodol o lwyddiant Hamdden Sir Ddinbych. Rydym yn gwerthfawrogi'r sgiliau a'r profiad y mae pob unigolyn yn eu dwyn i'w rôl ac er bod y cwmni'n cynnig ystod amrywiol o wasanaethau, mae gan bob un o'r timau yr un rhinweddau yn gyffredin - maent yn llawn angerdd a chymhelliant am eu gwaith, gyda diwylliant o berfformiad uchel ac enw da am wasanaeth cwsmer rhagorol.

### Ein Busnes

Mae Hamdden Sir Ddinbych Cyf. yn gwmni newydd a adeiladwyd ar gefndir o berfformiad uchel ac ymarfer arloesol. Dros y blynyddoedd diwethaf, fel gwasanaeth o fewn Cyngor Sir Ddinbych, rydym wedi sefydlu perthnasau parhaus sy'n fuddiol i bawb gyda nifer o sefydliadau partner. Rydym yn edrych ymlaen at lwyddiant parhaus y partneriaethau sefydledig hyn, wrth ddatblygu mentrau newydd a chyffrous hefyd. O fewn bob perthynas, rydym wedi ymrwmo i weithredu gyda gonestrwydd, tryloywder a chwarteisi.

Deiliad y swydd yn allweddol i sicrhau bod.erbyn 2030 bydd Denbighshire Leisure Ltd yn parhau i fod yn adnabyddus am gyfleoedd hamdden hygyrch o ansawdd yn denu lefelau cyfranogiad uchel ac yn gwella lles ei thrigolion a'i hymwelwyr.'



## Gwiriadau Cyflogaeth / Gofynion Penodol

Mae gofyn i weithwyr newydd fynd drwy ein gwiriadau recriwtio mwy diogel; 2 eirda boddhaol yn cwmpasu 3 blynedd o gyflogaeth, tystiolaeth o gymwysterau hanfodol, tystiolaeth o'r Hawl i Weithio yn y DU.

### Datganiad Diogelu

Mae Hamdden Sir Ddinbych Cyf yn cydnabod ei rwymedigaethau i ddiogelu plant ac oedolion ynghyd ag atal caethwasiaeth a masnachu mewn pobl, a bydd yn gwneud popeth o fewn ei allu i atal caethwasiaeth a masnachumewn pobl o fewn ei fusnesau. Mae sawl math o gaethwasiaeth fodern, gan gynnwys masnachu mewn pobl, llafur gorfodol, caethiwed a chaethwasiaeth.

Mae diogelu yn bwysig i bawb, ac mae gofyn i holl weithwyr cyflogedig Hamdden Sir Ddinbych weithio yn unol â pholisïau a gweithdrefnau Diogelu Oedolion / Plant y Cyngor. Mae dyletswydd arnynt i roi gwybod am unrhyw bryderon sy'n codi wrth gyflawni eu dyletswyddau a bod yn ymwybodol o arwyddion o gam-fanteisio. Dylid codi unrhyw bryderon â'r Rheolwr Diogelu Penodedig er mwyn i'r sefydliad allu gweithredu'n ddi-oed pan fydd yn dod ar draws achos o gam-fanteisio.



# Manylion am yr Unigolyn

Mae'r manylion am yr Unigolyn yn nodi'r sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad a ystyrir yn hanfodol er mwyn ymgymryd â dyletswyddau'r swydd yn effeithiol. Caiff ei defnyddio wrth lunio rhestr fer ac ar gyfer y broses o gyfweld am y swydd hon. Dylech ddangos ar eich ffurflen gais sut rydych yn bodloni'r meini prawf hyn. Byddwch ddim ond yn cael eich cynnwys ar y rhestr fer os ydych yn bodloni pob un o'r meini prawf hanfodol (â'r meini prawf dymunol lle bo'n berthnasol).

Teitl y Swydd: Rheolwr Cymorth Busnes – Ein Pobl

Hamdden Sir Ddinbych Cyf : Busnes a Llywodraethu

Cyflog : £32,234 - £35,745

Creadigrwydd ac Arloesi

Gallu darparu atebion arloesol a chreadigol i lywio gwelliannau parhaus yn y gwasanaeth a helpu i drawsnewid y ffordd rydym yn gwneud busnes ac yn gwasanaethu ein cwsmeriaid, wrth i ni ddod yn wasanaeth mwy hunangynhaliol yn y dyfodol.

Bod yn gyfrifol am annog a chyfarwyddo rheolwyr wrth ddatblygu prosesau gweithio mwy darbodus, effeithlon a hyblyg mewn perthynas ag 'Ein Pobl'. Bydd hynny'n cynnwys datblygu systemau arloesol a thraws-swyddogaethol i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.

Bod â'r gallu i strwythuro materion cymhleth a dod i benderfyniadau cytbwys a gwybodus.

Bod â'r gallu a'r weledigaeth i ragweld a dylanwadu ar newid mewn ymateb i anghenion a nodir a bod â'r sgiliau a galluoedd sydd eu hangen i reoli materion cymhleth a gofynion cystadleuol mewn amgylchedd deinamig.



## Cymwysterau, Profiad a Gwybodaeth

Bydd deiliad y swydd yn meddu ar gymwysterau priodol mewn maes sy'n canolbwyntio ar bobl, yn ddelfrydol gyda chefnidir mewn adnoddau dynol neu ddatblygu sefydliadol, ac wedi cymhwyso hyd Lefel 5 neu gyfwerth. Mae profiad o reoli prosiectau a datblygu strategaethau a pholisïau yn hanfodol. Rhaid i ddeiliad y swydd fod â phrofiad o ddatblygu a chyflawni strategaethau effeithiol ac effeithlon ar gyfer recriwtio/talent a rheoli perfformiad. Mae agwedd egnïol a brwd a'r gallu i gydweithio yn hanfodol, yn ogystal â medru arwain eraill a rhoi cefnogaeth gadarn a dibynadwy gydag amrywiaeth o bynciau sydd a wnelont â staff.

Profiad o reoli staff, timau prosiect a chyllid yn effeithiol i gyflawni gwasanaethau ac amcanion y Cwmni, a phrawf o'r gallu i wneud hynny.

Bydd deiliad y swydd yn meddu ar sgiliau lefel uchel wrth gyfathrebu ac ymwneud â phobl.

Rhaid i ddeiliad y swydd feddu ar yr hyder i gyfathrebu a herio budd-ddeiliaid ar bob lefel o fewn y sefydliad, gan gynnwys cyflwyno gwybodaeth trwy ddulliau priodol.

Mae gallu dadansoddi a gwerthuso materion a sefyllfaoedd cymhleth sy'n cynnwys amrywiaeth o faterion yn hanfodol, yn ogystal â'r gallu i ddangos sgiliau ysgrifenedig a llafar rhagorol.

Profiad o reoli a datrys materion cymhleth, a'r gallu i ddylanwadu ar newid.

Gallu gweithio'n gydweithredol a chorfforaethol fel rhan o dîm arweinyddiaeth: darparu gweledigaeth a chyfeiriad clir, ysbrydoli ac ysgogi i ddarparu gwasanaeth rhagorol drwy osod esiamplau da a bod yn gyson yn y dull gweithredu.

Gwaith tîm a phartneriaeth: cydweithio i ddarparu gwell gwasanaethau i gwsmeriaid a staff.

Gallu cyflwyno a chefnogi newidiadau yn ôl yr angen. Addasu i newidiadau a chyflwyno gwell ffyrdd o wneud pethau drwy greu syniadau a chwilio am y ffyrdd gorau o ddarparu gwasanaethau.

Profiad o weithio ar lefel uwch-reolwyr mewn sefydliad amrywiol a chymhleth o fewn y sector cyhoeddus neu'r sector preifat.

Profiad o weithio'n effeithiol mewn partneriaeth ag amrywiaeth helaeth o gyrff mewnol ac allanol.

Ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth: ymateb yn llwyddiannus i anghenion cwsmeriaid.

Gallu defnyddio a chymhwyso sgiliau TGCh perthnasol yn unol â natur a gofynion y swydd.

Gallu dylanwadu ar eraill i ddarparu'r lefelau uchaf o wasanaeth i gwsmeriaid. Sgiliau cyfathrebu / cyflwyno rhagorol, yn ysgrifenedig ac ar lafar. Sgiliau rhyngpersonol lefel uchel.

Profiad o weithio mewn adnoddau dynol neu faes tebyg o ran datblygu sefydliadol.

Profiad o lwyddo wrth gynnal ymgyrchoedd recriwtio cymhleth/mawr o ran nifer staff.

Profiad o ddatblygu cynlluniau a chefnogi newid.

Gallu dangos sgiliau o safon uchel mewn diplomyddiaeth, tact, perswâd, cyd-drafod, eiriolaeth a phendantrwydd.

Arddangos ymrwymiad cryf i wasanaeth cwsmeriaid. Ymwybyddiaeth gref o'ch atebolrwydd eich hun ac eraill.

Dangos gwytnwch a gwrthsafiad o dan bwysau.

Addasu arddull bersonol i gwrdd â gofynion sefyllfaoedd cymhleth.

Empathi at y Gymraeg a'r diwylliant Cymreig.

Gwybodaeth helaeth o systemau Office, gan gynnwys taenlenni, PowerPoint, cronfeydd data, Publisher (neu raglenni tebyg).

Sgiliau trefnu rhagorol a'r gallu i ddelio â materion sensitif a chymhleth mewn modd call a sicr.

Dymunol:

Profiad o weithio mewn maes sy'n gysylltiedig â hamdden.



Diolch am eich diddordeb.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'n Andy Moreland Pennaeth Llywodraethu a Chefnogi Busnes ar [andy.moreland@hamddensirddinbych.co.uk](mailto:andy.moreland@hamddensirddinbych.co.uk).



[www.denbighshireleisure.co.uk](http://www.denbighshireleisure.co.uk)



Denbighshire Leisure Ltd

@DenbighshireL